| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **16 Ionawr 2012** |
| **Teitl :** | **Adolygu Gweithdrefn Gwrandawiadau y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Adolygu a Chymeradwyo Trefn Ddiwygiedig** |

**Cefndir**

1. Lluniodd y Pwyllgor weithdrefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau ym mis Ebrill 2011. Seiliwyd hon ar drefniadau awdurdodau eraill, gweithdrefn Panel Dyfarnu Cymru a model a gyflwynwyd mewn gweithdy yng Nghynhadledd Safonau Cymru 2010.

2. Ers hynny mae'r Pwyllgor wrth gwrs wedi cynnal ei wrandawiad cyntaf i ystyried cwyn yn erbyn aelod. Yn dilyn y profiad hynny, ac ar ôl gweld y gwrandawiad 'ffug' a gynhaliwyd yng Nghynhadledd Safonau 2011, drafftiwyd trefn ddiwygiedig.

**Y Weithdrefn Newydd**

3. Cyflwynir gweithdrefn ddrafft, ddiwygiedig i sylw'r Pwyllgor (**Atodiad**). Y prif newidiadau yw:

- Dogfen symlach a haws ei darllen yn gyffredinol
- Cyfarfod rhwng y Cadeirydd a'r swyddog sy'n cynghori'r Pwyllgor i ystyried unrhyw gamau pellach sydd eu hangen cyn y gwrandawiad.
- Cyfuno'r cam 'canfod y ffeithiau' gyda'r cam i ystyried os yw'r cod wedi ei dorri.
- Symleiddio'r rheolau i ddelio â materion fel tystiolaeth hwyr, partïon ddim yn mynychu ayb.
- Y Cadeirydd i roi syniad o'r math o gosb y mae'r pwyllgor yn ei ystyried a rhoi cyfle i'r partïon gyflwyno sylwadau, cyn i'r pwyllgor benderfynu ar y gosb.

**Dogfennau Eraill**

4. Paratowyd 'sgript' i'r Cadeirydd ar gyfer y gwrandawiad a gynhaliwyd, er mwyn hwyluso'r dasg o redeg y gwrandawiad.  I'r dyfodol gellid paratoi dogfennau ychwanegol eraill, sef

- Crynodeb o drefn y gwrandawiad i'w dosbarthu i bawb sy'n bresennol
- Taflen o'r materion fydd rhaid i'r Pwyllgor benderfynu arnynt wrth ystyried y gŵyn.  Gellid cylchredeg copi o hon i'r partïon ymlaen llaw hefyd.

**Argymhelliad**

5. Gwahoddir y  Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar y broses o gynnal gwrandawiadau ac i ystyried a chymeradwyo'r weithdrefn amgaeedig.